



Polisi Esgeulustod Addysgol

Educational Neglect Policy

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____

POLISI ESGEULUSTOD ADDYSGOL

Gwasanaethau Plant

Polisi esgeulustod addysgol

HYDREF 2025



Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chefndir
2. Nodau
3. Llwybr Statudol
4. Diffiniadau o Esgeulustod Addysgol
5. Ymyriadau Statudol
6. Atodiadau
 - i. Presenoldeb yn yr ysgol a'i effaith ar gyrhaeddiad
 - ii. Proses 5 cam y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion

Nod y polisi hwn yw amlinellu ymateb yr awdurdod lleol i Esgeulustod Addysgol.

Beth yw Esgeulustod Addysgol?

Esgeulustod yw "methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a seicolegol sylfaenol plentyn". (Yr Adran Addysg, 2018; Yr Adran Iechyd, 2017; Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2019).

Mae'n fath o gam-drin plant sy'n gallu cael effeithiau difrifol a pharhaol ar fywyd plentyn - gall achosi niwed difrifol a hyd yn oed farwolaeth. (NSPCC, Rhagfyr 2019)

Dyma'r pedwar prif fath o esgeulustod a nodwyd gan yr NSPCC:

- **esgeulustod corfforol:** peidio â diwallu anghenion sylfaenol plentyn, fel bwyd, dillad neu loches; peidio â goruchwyllo plentyn yn ddigonol neu ddarparu ar gyfer ei ddiogelwch.
- **esgeulustod addysgol:** peidio â gwneud yn siŵr bod plentyn yn cael addysg.
- **esgeulustod emosiynol:** peidio â diwallu anghenion plentyn am anogaeth ac ysgogiad, er enghraifft drwy ei anwybyddu, ei fychanu, ei ddychryn neu ei ynysu.
- **esgeulustod meddygol:** peidio â darparu gofal iechyd priodol (gan gynnwys gofal deintyddol), gwrthod gofal neu anwybyddu argymhellion meddygol (Horwath, 2007).

Mae methiant parhaus i anfon plant i'r ysgol yn arwydd clir o esgeulustod a dylai'r Gwasanaethau Plant weithio gydag ysgolion i fynd i'r afael ag anawsterau sylfaenol. Yr Adran Addysg, 2012.

Mae gwella deilliannau addysgol i'n plant a'n pobl ifanc yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r cysylltiadau rhwng presenoldeb gwael a chyrhaeddiad yn gymhellol ac mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol diffyg presenoldeb. Un o'r rhain yw 'diogelu ac absenoldeb hirdymor'.

Mae'r disgrifiad canlynol o Esgeulustod Addysgol yn sail i'r polisi hwn:

'Methiant cyson i fodloni anghenion addysgol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn.'

D.S.: Bydd pryderon ynghylch diogelu yn golygu bod angen atgyfeirio'r plentyn yn syth at y Gwasanaethau Plant, yn unol â gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

2. **NODAU**

Nod y polisi hwn yw sefydlu dealltwriaeth gyffredin a throthwy cyffredin ar gyfer ymyrryd mewn achosion lle mae esgeulustod addysgol plant yn bryder.

Mae'r polisi hwn ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin i gefnogi gwell dealltwriaeth o esgeulustod addysgol a'r ffordd orau o ymateb i sicrhau gwell deilliannau i blant a theuluoedd (gweler Atodiad 1, Presenoldeb yn yr ysgol a'i effaith ar gyrhaeddiad).

Gwneir hyn drwy sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer uwchgyfeirio ac ymyrryd. Ym mhob cam o'r broses, bydd penderfyniadau proffesiynol yn cael eu gwneud am y ffordd orau o fwrw ymlaen, gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.

3. **LLWYBR STATUDOL**

Yn unol â'r llwybr presenoldeb yn yr ysgol yn Atodiad 2, pan fydd disgyblion yn cael eu hatgyfeirio at y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion, bydd y tîm yn cynnal asesiadau ac ymyriadau teuluol i hybu a hwyluso ailymgysylltu ag addysg. Gall ysgolion wneud atgyfeiriadau oherwydd diffyg presenoldeb. Gall atgyfeiriadau hefyd gael eu gwneud gan yr Ymgynghorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref a gweithwyr proffesiynol eraill ac aelodau o'r cyhoedd os oes pryderon nad yw plentyn yn cael addysg addas, naill ai drwy fynd i'r ysgol neu fel arall. O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas y tu allan i'r ysgol (e.e. gartref, yn breifat neu mewn darpariaeth amgen). Felly, gellir eu hatgyfeirio at y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion ar y sail eu bod yn colli addysg. Disgwylir y bydd yr holl staff Addysg a Gwasanaethau Plant yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd hon ac yn cynorthwyo'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion drwy ddwyn unrhyw blant o'r fath i'w sylw.

Ystyriaethau Covid-19

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau clir i ysgolion ar bresenoldeb yn ystod y cyfnod hwn, sy'n cael eu ddiweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd ysgolion hefyd yn gweithredu canllawiau'r awdurdod lleol ar gynlluniau ailymgysylltu i sicrhau y cynigir cymorth priodol i ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Os nad yw'r rhiant wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgol ac nad yw'r ysgol wedi gweld/siarad â'r plentyn am 10 diwrnod yn olynol, dylai'r ysgol ofyn am ymweliad lles gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion.

Ystyriaethau Covid-19

Dolen i ganllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru i ysgolion

<https://gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2021/2/4/1612446853/operational-guidance-schools-and-settings-support-limited-attendance.pdf>

Dolen i bolisi ymgysylltu'r awdurdod lleol

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/ccchtadvice/cymraeg>.

Mae'r canllawiau hyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd felly byddant yn parhau i ddatblygu.

Fodd bynnag, bydd ystyriaethau mewn perthynas â rhieni nad ydynt yn sicrhau addysg briodol i'w plant, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon, yn sbarduno cyfarfod rhwng y Timau Gofal Plant a'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a rhoddir ystyriaeth i esgeulustod addysgol, yn unol â'r polisi hwn.

Yn achos plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol, os nad oes gwelliannau o ran presenoldeb yn yr ysgol yn dilyn ymyriadau ac adolygiadau, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried y canlynol:

Bwrw ymlaen â Rhybudd Terfynol a chychwyn gweithdrefnau llys, fel y bo'n briodol;

NEU

Os yw'r plentyn yn achos agored i'r Timau Gofal Plant, cyflwyno Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth, gan gychwyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, dylid cwblhau Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth fel y gellir cynnal trafodaeth ar y strategaeth gyda'r Gwasanaethau Plant, y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion, y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol, er mwyn penderfynu sut i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Os nad yw'r plentyn yn agored i'r Gwasanaethau Plant, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried a yw'r diffyg addysg wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth. Lle bo'n briodol, bydd

achosion yn cael eu trafod gyda rheolwyr gwasanaeth fel y gellir penderfynu a oes angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth.

Pan fydd y rhieni'n cydweithredu ond bod y disgybl yn gwrthod cymryd rhan mewn addysg briodol, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried gwneud cais i'r Llys Teulu am Orchymyn Goruchwylio Addysg.

Yn achos plant sy'n Colli Addysg, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn cynnig cymorth i sicrhau bod y plentyn yn ailymgysylltu ag addysg. Fodd bynnag, os bydd hyn yn methu, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried y canlynol:

- Bwrw ymlaen â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol a chychwyn gweithdrefnau llys fel y bo'n briodol,
NEU
- Os yw'r plentyn yn achos agored i'r Timau Gofal Plant, cyflwyno Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth i gychwyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant,
NEU
- Os nad yw'r plentyn yn agored i'r Gwasanaethau Plant, ystyried a yw'r diffyg addysg wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth. Lle bo'n briodol, bydd achosion yn cael eu trafod gyda rheolwyr gwasanaeth fel y gellir penderfynu a oes angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth.

Y Broses

Atgyfeirio'r disgybl at y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion gan yr ysgol/Ymgynghorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref neu ar y sail ei fod yn colli addysg.

Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion
Monitro ac Ymyrryd

- Yn unol â'r gweithdrefnau Presenoldeb yn yr Ysgol a amlinellir yn adran 4

Dim neu fawr ddim gwelliant o ran Presenoldeb yn yr Ysgol
Er ymyrraeth 6 wythnos

**Nid yw'r plentyn/teulu
yn agored i'r
Gwasanaethau Plant
ac nid oes angen
Ffurflen Atgyfeirio
Amlasiantaeth**

**Y plentyn/teulu yn
agored i'r
Gwasanaethau Plant**

**Gweithredu
Gweithdrefnau
Amddiffyn Plant**

O leiaf un ymyrraeth
gan y llys sy'n methu
â gwella
presenoldeb. Erllyn o
dan adran
444/444(1A),
Gorchymyn
Mynychu'r Ysgol neu
Orchymyn
Goruchwylio Addysg.

**Ffurflen Atgyfeirio
Amlasiantaeth**

4. DIFFINIADAU O ESGEULUSTOD ADDYSGOL

Methiant i hybu a darparu addysg briodol yn unol â Deddf Addysg Cymru 2014.

4A - ANWAITH GAN Y RHIANT

Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol pan fydd rhieni'n methu â hybu neu ddarparu addysg briodol er anfantais emosiynol a datblygiadol i'r plentyn a lle:

- mae presenoldeb yn yr ysgol yn llai nag 80% ac nad yw'r rhieni'n gallu rhoi neu gadarnhau rhesymau dros yr absenoldeb.
- mae'r rhiant yn methu â mynychu neu gymryd rhan mewn ymdrechion i gefnogi presenoldeb neu hawl addysgol ei blentyn.
- mae presenoldeb yn yr ysgol/hawl addysgol yn parhau i fod yn broblem sylweddol er y cafwyd cefnogaeth ac ymyrraeth gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant: er enghraifft, ymyrraeth gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion, y Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaethau Ataliol neu'r Gwasanaethau Plant.

4B - ANWAITH GAN Y PERSON IFANC


Mae'r diffiniad hwn yn briodol pan fydd disgyblion yn ddigon hen i benderfynu ar eu gweithredoedd eu hunain a theithio'n annibynnol i'r ysgol a lle:

- mae cydweithrediad gan y rhieni yn cael ei ddangos yn glir.
- mae'r ddarpariaeth addysgol bresennol yn briodol ar gyfer anghenion y person ifanc; ac
- mae lefelau presenoldeb yn 75% neu lai.

Os bydd y trothwyon hyn yn cael eu cyrraedd, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried gwneud cais i'r Llys Teulu am Orchymyn Goruchwyllo Addysg.

Os yw'r person ifanc neu'r rhiant yn methu'n gyson â dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd drwy Orchymyn Goruchwyllo Addysg, mae dyletswydd gyfreithiol i gwblhau asesiad integredig, yn dilyn Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth.

TROTHWYON PRESENOLDEB UNIGOL DROS 12 MIS



5. YMYRIADAU STATUDOL

LLYTHYR RHYBUDD TERFYNOL

Llythyr rhybudd cychwynnol yn nodi, os bydd y rhieni'n parhau i fethu â darparu addysg briodol, eu bod mewn perygl o gael dirwy neu gael eu herlyn.

HYSBYSIAD COSB BENODEDIG (Gweinyddir gan yr awdurdod lleol)

Ymyrraeth gynnar lle ceir presenoldeb afreolaidd, absenoldeb anawdurdodedig a disgwyliad rhesymol y gallai hyn newid, sy'n rhyddhau'r rhiant o atebolrwydd i'w gael yn euog o drosedd drwy dalu o dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

ERLYN - TROSEDD ABSOLIWT (Llys Ynadon)

Erlyn rhiant, o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996, am bresenoldeb afreolaidd plentyn ag absenoldeb anawdurdodedig; mae hyn yn drosedd atebolrwydd caeth ag amddiffyniadau cyfyngedig.

ERLYN – TROSEDD WAETHYGEDIG (Llys Ynadon)

Erlyn rhiant, o dan adran 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996, am bresenoldeb afreolaidd plentyn ag absenoldeb anawdurdodedig; mae'r rhiant yn gwybod am y presenoldeb afreolaidd ac yn methu â newid hyn, heb gyfiawnhad rhesymol. Posibilrwydd o ddedfryd o garchar.

GORCHYMYN MYNYCHU'R YSGOL (Llys Ynadon os na chafodd ei ddatrys)

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant/rhieni, o dan Ddeddf Addysg 1996, gofrestru plentyn o oedran ysgol gorfodol mewn ysgol a enwir pan nad yw'n cael addysg addas.

GORCHYMYN GORUCHWYLIO ADDYSG (Llys Teulu)

Gorchymyn 12 mis, o dan adran 36 o Ddeddf Plant 1989, ar y sail nad yw'r plentyn yn cael ei addysgu'n briodol; Swyddog Goruchwyllo i 'gynorthwyo, cyngori a bod yn gyfaill'.

Fel y nodir isod (yn Atodiad 2), gwneir penderfyniadau i roi cosbau penodedig neu gychwyn achos llys yn y Llys Ynadon neu'r Llys Teulu drwy ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae templed gwneud penderfyniadau ar gael. Mae hwn yn nodi rhestr o wybodaeth y dylid rhoi ystyriaeth iddi wrth ystyried yr opsiynau hyn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth ond mae'n nodi'r mathau o faterion a fydd yn berthnasol.

Atodiadau

Atodiad 1: Presenoldeb yn yr ysgol a'i effaith ar gyrhaeddiad.

Oriau Dysgu a Gollwyd a sut mae presenoldeb yn effeithio ar gyrhaeddiad

Gwyrdd	100%	Ddim yn colli unrhyw wersi
	99%	Colli tua 10 gwers
	98%	Colli tua 20 gwers
	97%	Colli tua 30 gwers
Melyn	96%	Colli tua 8 diwrnod o ysgol. Bydd yn anodd dal i fyny â dysgu a gollwyd o 40 gwers.
	95%	Colli tua phythefnos o ysgol.
Oren	93%	Colli 14 diwrnod o ysgol. Mae hyn bron yn 3 wythnos sy'n gryn dipyn o addysg i'w cholli. Dylai ysgolion roi gwybod i rieni am bryderon.
	92% a llai	Colli mwy na 3 wythnos o addysg. Colli dysgu i raddau difrifol, sy'n debygol o gael effaith andwyol ar gyflawniad a chyfleoedd bywyd. Dylai fod gan ysgolion gynllun ar waith i wella presenoldeb. Dylid trefnu cyfarfodydd rhwng yr ysgol a'r rhieni.
Coch	80%	Atgyfeirio at y Gwasanaeth Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion. Ymyrraeth 6 wythnos yn dechrau. Os na fydd gwelliant neu ymgysylltiad, gellir sbarduno'r prosesau cyfreithiol.

Atodiad 2: Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion: Model Pum Cam

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn hyrwyddo **model pum cam** ar gyfer ymateb i absenoldeb disgyblion. **Mae'r tri cham cyntaf yn berthnasol i ysgolion.** Mae camau 4 a 5 yn berthnasol i ymyriadau statudol y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn dilyn atgyfeiriad ac yn ymwneud â phrosesau mewnol y gwasanaeth. Nodir y rhain isod ac maent yn seiliedig ar y prosesau deddfwriaethol a amlinellir yn y **Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.**

CAM 1 - Gweithredu yn yr Ysgol - Rôl yr ysgol wrth ddelio â phresenoldeb

Dylai ymyrraeth gychwynnol gan yr ysgol gynnwys datblygu a mabwysiadu polisiau yn yr ysgol i nodi problemau sylfaenol a, lle bo'n briodol, datblygu strategaethau realistig i fynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau'r awdurdod lleol i ddatblygu ethos lle mae presenoldeb yn uchel ei broffil yn yr ysgol a sicrhau ymateb cyson i absenoldeb disgyblion.

Dylai'r camau canlynol gael eu dilyn gan yr ysgol mewn perthynas â diffyg presenoldeb:

1. Diwrnod cyntaf o absenoldeb - cyswllt â'r rhiant dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost. Anfon llythyr (rheswm dros yr absenoldeb) os nad oes ymateb.
2. Anfon llythyrau 1-3 pan fydd presenoldeb yn dechrau lleihau. Amlinellir y broses ar gyfer anfon llythyrau hefyd yn Llawlyfr Cefnogi Ysgolion yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig bod ysgolion yn gwahodd rhieni a disgyblion i gyfarfod i geisio cydweithio â nhw i nodi a datrys achosion sylfaenol diffyg presenoldeb. Gall yr achosion gynnwys y canlynol:

- Anghenion meddygol
- Bwlio
- Problemau cymdeithasol
- Dadrithiad
- Hwyrni
- Anghenion dysgu ychwanegol

Wrth gyfarfod â rhieni i drafod presenoldeb, dylai ysgolion gofnodi'r drafodaeth hon a gellir defnyddio templed yr awdurdod lleol.

3. Dylid defnyddio dull y Tîm o Amgylch y Teulu lle bo'n briodol gyda chydgyssylltwyr y Tîm o Amgylch y Teulu a gweithiwr ieuencid mewn ysgolion ar gyfer ysgolion uwchradd.

CAM 2 - Gweithredu yn yr ysgol ar y cyd â chyngor gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion

Lle mae ymyriadau yn yr ysgol yn dal i gael eu hystyried yn lefel briodol, gellir ceisio rhagor o arbenigedd a chyngor gan weithiwr cymdeithasol i ysgolion.

Ar y lefel hon, ni wneir unrhyw atgyfeiriad ffurfiol. Bydd y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion, gan weithio mewn capasiti ymgynghorol, yn gweithredu i gynorthwyo'r ysgol i nodi strategaethau amgen posibl i hybu presenoldeb rheolaidd gan ddisgyblion drwy gysylltu ag uwch-reolwr yr ysgol sy'n gyfrifol am bresenoldeb. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar ffurflen ymweliad ymgynghori'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion a fydd yn cael ei llofnodi gan yr ysgol a'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion. Rhoddir copi o'r ffurflen i'r ysgol. Lle cytunwyd ar y cymorth hwn gyda'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion, dylid adolygu'r ffurflenni ymgynghori bob tymor er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau a bod unrhyw gynnydd/gostyngiad mewn presenoldeb yn cael ei nodi.

Pan fydd rhieni'n ceisio cymorth gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn uniongyrchol, gellir ystyried bod ymyrraeth Cam 1 yn briodol. Os felly, dylai'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion gyfeirio'r rhieni yn ôl at yr ysgol a hefyd roi gwybod i gydweithwyr mewn adrannau perthnasol, megis yr ysgol, cynhwysiant a gwasanaethau plant.

Yn ogystal, gall y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion gynnig mynychu cyfarfodydd cyn atgyfeirio yn yr ysgol gyda rhieni, mewn capasiti ymgynghorol, er mwyn cynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael â materion presenoldeb yn y camau cynnar. Ni ragwelir y bydd y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion yn mynychu gormod o'r "cyfarfodydd cyn atgyfeirio" hyn, gan mai hyn a hyn o amser sydd ganddo. Fodd bynnag, gall ysgolion ofyn am gymorth drwy gysgod i'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion mewn cyfarfodydd o'r fath yng nghyfnodau cyntaf y flwyddyn academaidd a gallant hefyd ofyn am y cymorth hwn gydag achosion mwy cymhleth. Felly, gall y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion a'r ysgol drafod y cymorth hwn a gall ffurfio rhan o'r ymweliadau â'r ysgol bob tymor/bob pythefnos, gan ddibynnu ar ddyraniad amser yr ysgol. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal gyda chaniatâd y rhiant.

CAM 3 Atgyfeiriad Ffurfiol at y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a cheisiadau am Hysbysiadau Cosb

Bydd pob disgybl yn cael ei ystyried ar sail unigol a bydd atgyfeiriad yn seiliedig ar nifer o ffactorau a amlinellir yng Ngham 2. Yn ogystal, y trothwy ar gyfer atgyfeiriad oherwydd presenoldeb gwael yw 80% (lle mae prif achos yr absenoldeb yn anawdurdodedig) a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriad i ofyn am Hysbysiad Cosb yw 10 sesiwn o absenoldeb anawdurdodedig mewn tymor.

Er mwyn symud i Gam 3, dylai ysgolion farnu pa mor briodol yw atgyfeiriad gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

Yn achos presenoldeb isel:

- A yw'r holl strategaethau ymyrraeth yn yr ysgol wedi'u mabwysiadu/eu hystyried?
- A yw'r ysgol wedi dilyn y siart llyf presenoldeb, h.y. galwadau ffôn, llythyr 1, llythyr 2, llythyr 3 a chyfarfod? Lle bynnag y bo modd, dylai'r rhieni fod yn ymwybodol bod yr atgyfeiriad yn cael ei wneud.
- A oes unrhyw amgylchiadau lliniaru y mae angen eu hystyried?
- A yw prif achos yr absenoldeb yn anawdurdodedig?

Rhaid darparu'r dogfennau canlynol gyda'r atgyfeiriad:

- Copïau o lythyrau a chofnodion cyfarfodydd gyda'r rhieni - yn cynnwys y dyddiad, amser a'r canlyniad.
- Copi o dystysgrif cofrestru presenoldeb y disgybl.
- Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion, rhaid cynnwys unrhyw fanylion am ffactorau risg hysbys sy'n gysylltiedig â'r disgybl a rhieni a theulu'r disgybl, neu leoliad daearyddol y cartref.

I ofyn am hysbysiad cosb:

- A lynwyd wrth Gôd Ymddygiad yr awdurdod lleol?
- A oes 10 sesiwn o absenoldeb anawdurdodedig oherwydd diffyg presenoldeb neu hwyrni (ar ôl cau'r gofrestr)?
- A yw'r dogfennau canlynol yn barod i'w lanlwytho gyda'r atgyfeiriad? Copi o lythyr yr ysgol gyfan am hysbysiad cosb, copi o'r llythyr rhybuddio i rieni am hysbysiad cosb, ffurflen gais am hysbysiad cosb, ffurflen awdurdodi ar gyfer yr ysgol, copi o gofrestr ysgol y disgybl a (lle bo'n briodol) ffurflen gais am wyliau ac ymateb y pennaeth i hyn.
- A oes amgylchiadau lliniaru?

Yn ogystal, dylai'r atgyfeiriad nodi a yw'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- Patrymau presenoldeb afreolaidd:
 - a) os mai prif achos yr absenoldeb yw absenoldeb anawdurdodedig, presenoldeb o lai na 80% (ar gyfer atgyfeiriadau am ddiffyg presenoldeb)
 - b) os oes 10 sesiwn anawdurdodedig mewn tymor ysgol (ar gyfer hysbysiadau cosb).
- os oes 10 diwrnod o absenoldeb anawdurdodedig yn olynol (sy'n codi pryderon am les neu blant sy'n colli addysg).
- os nad yw plentyn yn dechrau mewn ysgol a bod pryderon am blant sy'n colli addysg.

Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol i'r gweithiwr cymdeithasol i ysgolion eu hystyried wrth benderfynu a ddylid derbyn yr atgyfeiriad.

- Ai'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yw'r asiantaeth gywir i ymgymryd â'r dasg?
 - er enghraifft, a yw'n dasg i'r Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaethau Plant, Seicolegydd Addysg, Cynhwysiant (e.e. cymorth ymddygiad, addysg heblaw yn yr ysgol, panel cynhwysiant), neu wasanaethau mewn ysgolion (nyrs iechyd yr ysgol, Area 43, gweithiwr ieuencid mewn ysgolion, Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)?
- A yw'r amseru'n briodol? Pryd oedd yr absenoldeb anawdurdodedig diwethaf?
- Beth yw'r canlyniad a ddymunir yn sgil yr atgyfeiriad arfaethedig?
- Beth fydd yr effaith ar eraill?
 - Rhieni/brodyr a chwiorydd.
- A yw hyn yn flaenoriaeth i'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion neu a oes asiantaethau neu strategaethau eraill ar gael?
- A yw'r rhieni wedi cael gwybod gan yr ysgol y gellid gwneud atgyfeiriad at y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion?

Dylai pob atgyfeiriad gael ei wneud gan ysgolion ar Ffurflen Atgyfeirio'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion:

https://fynghyfrif.sirgar.llyw.cymru/cy/service/Education_welfare_service_online_referral_process

https://myaccount.carmarthenshire.gov.wales/en/service/Education_welfare_service_online_referral_process

Mae'n bwysig bod y ffurflen atgyfeirio yn cynnwys tystiolaeth ffeithiol gan fod hynny'n hanfodol ar gyfer rheoli achosion (gan gynnwys trafodaethau â'r gwasanaethau cyfreithiol a'r llys lle bo'n briodol), yn ogystal â darparu data ystadegol i ysgolion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd bob amser yn rhoi adborth i ysgolion ynghylch a yw'r atgyfeiriad wedi'i dderbyn neu ei wrthod, yn rhoi rhesymau dros hyn ac yn rhoi amlinelliad byr o'r cam nesaf ar gyfer y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion. Dylid gwneud hyn o fewn 24 awr i wneud yr atgyfeiriad.

Atgoffir staff mewn ysgolion, er mwyn i gamau cyfreithiol gael eu cychwyn yng Ngham 5, fod yn rhaid cofnodi bod absenoldebau yn anawdurdodedig, gan fod awdurdodi absenoldeb gan yr ysgol yn amddiffyniad statudol i adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Mae cofrestr yr ysgol yn ddogfen gyfreithiol a rhaid iddi fod yn gywir.

Yng Ngham 3, gall camau gweithredu gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion gynnwys y canlynol:

- Neilltuo gweithiwr ymgysylltu â'r teulu i'r plentyn lle mae pryderon am blant sy'n colli addysg ac mae angen rhagor o wybodaeth i egluro hyn.

- Neilltuo gweithiwr ymgysylltu â'r teulu i'r plentyn ar gyfer Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd lle mae'n amlwg bod angen dull y Tîm o Amgylch y Teulu cyn cymryd unrhyw gamau pellach.
- Cysylltu ag ysgolion/gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i gael rhagor o wybodaeth.
- Ysgrifennu at rieni i drefnu ymweliad cartref.
- Cwblhau asesiad y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion.
- Ysgrifennu'n ffurfiol at rieni/gofalwyr.
- Cysylltu â rhieni/gofalwyr dros y ffôn.
- E-bostio rhieni/gofalwyr.
- Cynnal cyfarfodydd gyda'r teulu. Gellid gwneud hyn o bell drwy Skype, Microsoft Teams, WhatsApp.
- Cyfarfod â'r disgybl yn yr ysgol neu o bell, gyda staff yr ysgol lle bo'n briodol, i gadarnhau ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.
- Cynnal cyfarfodydd cynllunio addysg, yn yr ysgol neu o bell lle bo angen.
 - Rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig. (Gwneir hyn gan y rheolwr tîm).

Pan fydd atgyfeiriad yn cael ei dderbyn gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a'i ddyrannu i weithiwr cymdeithasol i ysgolion, bydd y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion yn gwneud y canlynol:

- Cysylltu â'r rhiant i drefnu ymweliad cartref a chynnal asesiad i benderfynu ar gamau gweithredu, o fewn 5 diwrnod ysgol i dderbyn yr atgyfeiriad.
- Rhoi ymateb ysgrifenedig i'r ysgol ynghylch ei gyfraniad fel rhan o'r cofnod atgyfeirio parhaus o fewn 10 diwrnod gwaith.

Diben ymweliad cartref/cyfarfod o bell neu gyfarfod dros y ffôn fydd:

- Asesu'r amgylchiadau sy'n effeithio ar bresenoldeb/y rheswm dros yr absenoldeb.
- Rhoi gwybod i rieni am eu rhwymedigaethau o ran presenoldeb yn yr ysgol.
- Rhoi cyngor a chymorth i deuluoedd.
- Cytuno ar gynllun i wella presenoldeb - gall hyn olygu bod gweithiwr ymgysylltu â'r teulu yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r person ifanc, y rhiant neu'r teulu a gall gynnwys atgyfeiriadau at asiantaethau eraill.

CAM 4 Dull Rheoli Achosion (Proses fewnol ar gyfer y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion)

Lle nad yw presenoldeb yn gwella yn dilyn y camau y cytunwyd arnynt ar ôl neilltuo, neu lle mae'r materion sy'n effeithio ar bresenoldeb yn ymddangos yn syth yn rhai cymhleth sy'n gofyn am gynllun mwy cydlynol a pharhaus, bydd y Tîm Diogelu a

Phresenoldeb Ysgolion yn ystyried symud ymlaen i gam 4, sef dull rheoli achosion. Mae hyn yn golygu cynnal cyfarfod cynllunio gyda'r teulu a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol. Gall yr uwch-weithiwr cymdeithasol i ysgolion/rheolwr tîm fynychu'r cyfarfod hwn hefyd lle bo hynny'n briodol. Bydd achosion ar y lefel hon hefyd yn cael eu hadolygu'n fisol ar y cyd â'r rheolwr tîm a'r gweithiwr ymgysylltu â'r teulu cysylltiedig yn ystod goruchwyliaeth pod, er mwyn sicrhau dull cadarn o ran rheoli achosion. Ni ragwelir y bydd achosion yn parhau yn y cam hwn am gyfnod hir. Bydd achosion yn cael eu hadolygu ar ôl 6 wythnos.

Rhoddir ystyriaeth i nifer o strategaethau. Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- Monitro presenoldeb disgyblion unigol yn ddwys.
- Llunio cytundeb ysgrifenedig/contract rhwng y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion, y rhiant a'r disgybl i amlinellu cynllun cymorth a disgwyliadau.
- Rhaglen fanwl â chyfyngiad amser gyda'r teulu (a ddarperir gan y gweithiwr ymgysylltu â'r teulu).
- Atgyfeirio at asiantaethau/gwasanaethau eraill, gan gynnwys y Tîm o Amgylch y Teulu.
- Cynnal Adolygiad Achos Presenoldeb i adolygu'r cynllun y cytunwyd arno fel rhan o asesiad y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion.
- Llythrau rhybudd ffurfiol - rhaid anfon L3 a rhybudd terfynol i symud ymlaen i gam 5.
- Sicrhau y glynir wrth y canllawiau statudol ynghylch plant sy'n colli addysg/dadgofrestru disgyblion.

Os nad oes cynnydd sylweddol yng Ngham 4 ac na chafwyd tystiolaeth bod y rhieni a/neu'r disgybl wedi ymateb i ystod o ymyriadau sydd wedi'u cofnodi a'u monitro, cynhelir cyfarfod cyn mynd i'r llys gyda'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a'r gwasanaethau cyfreithiol. Yma, bydd y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion yn cyflwyno'r achos i'r rheolwr tîm a'r adran gyfreithiol i'w ystyried. Os mai'r penderfyniad yw erlyn/cyfeirio at y llys, bydd y rhieni yn cael gwybod eu bod wedi cyrraedd Cam 5 - Camau Statudol.

Bydd y penderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwn yn cael eu strwythuro yn unol â Pholisi Gorfodi Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cam 5 – Camau Statudol (TÎM DIOGELU A PHRESENOLDEB YSGOLION)

Lle mae angen rhoi camau statudol ar waith, bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn gweithredu o fewn y meini prawf canlynol, yn unol â phrotocol erlyn CSC:

Dyletswydd i ystyried gorchymyn goruchwyllo addysg

- Cyn rhoi camau ar waith o dan adran 444, mae'n ofynnol i'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion ystyried pa mor addas yw'r achos i'w roi gerbron

y Llys Teulu mewn perthynas â Gorchymyn Goruchwylio Addysg o dan adran 36 o Ddeddf Plant 1989.

Mae hyn yn golygu ystyried y canlynol:

Gorchymynion goruchwylio addysg, adran 36 Deddf Plant 1989

Mae adran 36 o'r Ddeddf Plant yn rhoi pŵer i'r awdurdod addysg lleol wneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg. Mater 'achos teuluol' yw Gorchymyn Goruchwylio Addysg, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Plant 1989, sy'n ystyried lles y plentyn yn brif bryder ac sy'n fater sifil.

Ni chaiff llysoedd wneud Gorchymyn Goruchwylio Addysg pan fydd y plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol.

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y bydd Gorchymyn Goruchwylio Addysg yn cael ei ystyried:-

- Pan fo'r rhiant/rhieni a'r disgybl(ion) wedi ymrwymo i wella presenoldeb.
- Pan fo'r rhiant/rhieni a'r disgybl(ion) yn barod i gydweithio'n agos â swyddog dynodedig y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion.
- Pan fo'r plentyn o oedran pan fydd yn elwa o Orchymyn Goruchwylio Addysg.

Erlyniadau

- A ddangosir bod yr absenoldebau yn y gofrestr bresenoldeb yn anawdurdodedig? (*Dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996 – amddiffyniad statudol yw awdurdodi absenoldebau gan yr ysgol*).
- A roddwyd ystyriaeth i bob ymyrraeth bosibl?
- A yw'r rhieni wedi cydweithredu â'r ysgol/awdurdod addysg lleol i gefnogi'r disgybl? (*Gellid erlyn rhieni sy'n methu yn hyn o beth o dan y drosedd waethygedig, adran 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 – lle mae'r gosb yn fwy os cânt eu canfod yn euog*).
- A oes unrhyw amgylchiadau eraill sy'n lliniaru rhag erlyn ar hyn o bryd?

Pan fo'r meini prawf uchod wedi'u bodloni a bod atgyfeiriad at y llys wedi'i gytuno, bydd y gweithiwr cymdeithasol i ysgolion a'r rheolwr tîm yn sicrhau bod y broses isod yn cael ei gweithredu o dan **adran 444(1) neu 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 (Methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl cofrestredig)**.

O ran plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol

O ran disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru mewn unrhyw ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, dylid dilyn y broses sy'n dilyn Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Os yw'r disgybl yn parhau heb addysg, er darparu cymorth gan y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a cheisio Gorchymyn Mynychu'r Ysgol, gellid erlyn y rhieni o dan adran 443 o Ddeddf Addysg 1996 (Methu â chydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol).

Contents

1. Introduction and background
2. Aims
3. Statutory Pathways
4. Definitions of Educational Neglect
5. Statutory Interventions
6. Appendices
 - i. School Attendance and its impact on Attainment
 - ii. School Safeguarding and Attendance Team 5-Step process

1. INTRODUCTION AND BACKGROUND

This policy aims to outline a local authority response to Educational Neglect.

What is Educational Neglect

Neglect is “the ongoing failure to meet a child’s basic physical and psychological needs” (Department for Education, 2018; Department of Health, 2017; Wales Safeguarding Procedures Project Board, 2019).

